**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

**National Assembly for Wales**
Public Accounts Committee

Andrew Slade
Cyfarwyddwr Cyffredinol - Grŵp yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol
Llywodraeth Cymru

25 Gorffennaf 2019

Anwyl Andrew

**Cynllun Llywodraeth Cymru i gynnig tocynnau bws rhatach i bobl ifanc – FyNgherdynTeithio**

Diolch am eich llythyr ar 27 Mehefin, a ystyriwyd gan y Pwyllgor fel papur i'w nodi ar 15 Gorffennaf. Mae nifer o faterion y byddem yn croesawu eglurhad arnynt.

**Ffigurau ar gyfer pobl ifanc 19-21 oed**

Roedd y papur y gwnaethoch ei gyflwyno cyn y sesiwn dystiolaeth ar 20 Mai yn nodi y bu 1,554 o geisiadau gan bobl ifanc 19-21 oed erbyn 22 Ebrill. Dywed eich llythyr mai dim ond 834 o docynnau a ddosbarthwyd ar gyfer pobl ifanc 19-21 oed ar 9 Mai.

Byddem yn croesawu eglurhad am y gwahaniaeth hwn, yn benodol i ba raddau y mae'n adlewyrchu ceisiadau yr ystyriwyd eu bod yn anghymwys am wahanol resymau, oedi wrth brosesu ceisiadau neu, o bosibl, enghreifftiau o basys a gyhoeddwyd ers lansiad mis Chwefror ond sydd eisoes wedi dod i ben.

Os oes ffigurau mwy diweddar yn dangos sut y gallai'r sefyllfa fod wedi newid ers mis Ebrill/Mai, byddem yn falch o'u derbyn.

**Defnyddio pasys**

Dywedodd eich llythyr, o 17,795 o basys byw (dilys ar gyfer teithio) ar 9 Mai, y defnyddiwyd 2,287 o basys penodol i brynu tocynnau lle cafodd y gwerthiant ei gofnodi'n electronig. Mae'n mynd ymlaen i ddweud, y prynwyd cyfanswm o 29,344 o docynnau clyfar, ac y bydd rhai ohonynt wedi bod yn ddilys ar gyfer teithiau lluosog.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddArchwilio@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddArchwilio
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddPAC@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddPAC
0300 200 6565

Hoffem i chi egluro'r cyfnod(au) o amser y mae'r dadansoddiad hwn yn ymwneud â hwy.

Yn ogystal, mae eich llythyr yn nodi nad yw pob pryniant tocyn yn cael ei gofnodi'n electronig, ac felly nid yw'n bosibl nodi nifer y tocynnau nas defnyddiwyd ar hyn o bryd. Rydym ar ddeall, yn seiliedig ar adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol, fod y rhan fwyaf o docynnau yn cael eu prynu drwy beiriannau tocynnau electronig. Fodd bynnag, rydym yn tybio bod y datganiad hwn yn cyfeirio at nifer y 'tocynnau clyfar' a brynwyd lle gellir adnabod y tocyn dan sylw. Byddem yn croesawu cadarnhad o hyn, ynghyd â syniad i ba raddau y mae systemau cardiau clyfar ar waith ar draws Cymru bellach i gefnogi'r cynllun FyNgherdynTeithio ac unrhyw ddadansoddiad yn y dyfodol.

**Manylion y system iawndal**

Diolch i chi am gadarnhau bod Llywodraeth Cymru wedi parhau i ddigolledu gweithredwyr yn seiliedig ar eu defnydd gwirioneddol ers 1 Ebrill 2017.

Ar y sail honno, tybiwn fod y datganiad canlynol yn eich papur tystiolaeth cynharach yn anghywir, gan fod y system ad-dalu hon eisoes wedi'i chyflwyno cyn yr adolygiad archwilio mewnol: *"The [internal audit] report was clear that lessons could be learned, and the Welsh Government quickly implemented a number of actions - including reimbursing bus operators on the basis of the actual number of journeys undertaken."*

**Modelu costau ar gyfer pobl ifanc 19-21 oed ac ar gyfer cyllideb gyffredinol 2019-20**

Fe wnaethoch chi ddisgrifio'r dadansoddiad fel 'mathemateg eithaf bras' yn eich tystiolaeth lafar, ond serch hynny gwnaethoch nodi bod mwy wedi'i wneud ar gyfer y gwaith modelu hwn.

Rydym yn nodi gostyngiad yn nifer cyffredinol y bobl ifanc 16-18 oed o gymharu â'r ffigurau a lywiodd y cynlluniau gwreiddiol ar gyfer y cynllun yn 2015. Serch hynny, roedd y 'nifer amcangyfrifedig o docynnau bob blwyddyn' ar gyfer pobl ifanc 16-18 oed (12,185) yn amlwg yn is na nifer y tocynnau byw a oedd yn cael eu defnyddio ar gyfer mis Awst 2018 (ffigur a oedd wedi cynyddu i 16,961 erbyn 9 Mai 2019).

Felly byddem yn croesawu eglurhad o'r rhesymeg dros ddefnyddio'r ffigur 12 y cant yn y modelu ar gyfer pobl ifanc 16-18 oed, gan gymhwyso hynny wedyn i bobl ifanc 19-21 oed.

Er gwaethaf eich disgrifiad blaenorol, roeddem hefyd yn synnu bod yr un rhagdybiaethau ynghylch nifer y bobl a oedd yn manteisio ar siwrneiau wedi cael eu

defnyddio ar gyfer pobl ifanc 19-21 oed heb roi ystyriaeth i wahaniaethau posibl mewn patrymau teithio neu, ar gyfer 2019-20 o leiaf, effaith twf cynyddol yn y nifer sy'n manteisio arno ar ôl y lansiad. Byddem yn croesawu manylion unrhyw dystiolaeth ategol am y defnydd presennol o fysiau ymhlith pobl ifanc 19-21 oed a oedd yn sail i'r dadansoddiad.

Er mwyn bod yn drwyadl, byddai gennym ddiddordeb hefyd i weld dadansoddiad o wir nifer y siwrneiau a amcangyfrifwyd yn ystod 2018-19 yn seiliedig ar werthiant tocynnau i bobl ifanc 16-18 oed (sy'n cyfateb i Ffigurau A5 ac A6 yn adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol).

**Materion eraill**

Yn ystod y sesiwn dystiolaeth ar 20 Mai, nododd Sheena Hague fod swyddogion yn edrych ar faint o'r rheini a gymerodd ran fel pobl 19-21 oed a oedd wedi cymryd rhan yn y cynllun fel rhai 16-18 oed. Byddai gennym ddiddordeb mewn gweld unrhyw ddadansoddiad o'r fath.

Byddwn yn ddiolchgar am ymateb erbyn 6 Medi 2019, a bydd y Pwyllgor wedyn yn ei ystyried ar ôl dychwelyd ar ôl toriad yr haf.

Yn gywir,

**Nick Ramsay AC**
**Cadeirydd**